

# Tiroedd Hen Neuadd Y Bontfaen

# Hanes Cryno



Eleanor Edmondess Yr Hen Neuadd, dyfrlliw, 1929  
Trwy ganiatâd caredig y teulu Edmondess

**YMDDIRIEDOLAETH  
SIARTER Y BONTFAEN**



Rhif Elusen Gofrestredig 1107225

[www.cctrust.co.uk](http://www.cctrust.co.uk)

# Tiroedd yr Hen Neuadd



## Y Dref

Mae hanes yr Hen Neuadd a'i tiroedd yn adlewyrchu hanes y dref: gwelir ei chyfnodau o lewyrch a chaledi yn nefnydd y gerddi a pherchnogaeth y tŷ. Mae olion archeolegol sy'n tystio y bu presenoldeb Rhufeinig sylweddol yn Y Bontfaen yn ymestyn o'r afon ar hyd y Stryd Fawr cyn belled â'r Hen Neuadd. Roedd yn dilyn aliniad Via Julia, yr heol Rufeinig a fu'n cysylltu'r gaer Rufeinig yng Nghaerllion â Chaerfyrddin, a heddiw, dyma ffurf y Stryd Fawr. Dyddia tref bresennol Y Bontfaen o'r cyfnod Anglo-Normanaidd, pan sefydlodd Richard de Clare, Arglwydd Morgannwg, 'dref newydd' ar yr hen heol Rufeinig lle croesai gwm afon Ddawan.

Sefydlwyd y fwrdeistref am resymau economaidd gan mwyaf. Mae'r siarter cyntaf, a roddwyd yn 1254, yn cyfeirio at yr anheddiad fel 'Longa Villa', sy'n disgrifio ei chynllun ar hyd yr heol Rufeinig i'r dim. Adeiladwyd anheddiad furio â chlwyd i ddynodi pedwar pwynt y cwmpawd, a chlwydi'r dwyrain a'r gorllewin oedd yn dilyn llinell yr heol.

Roedd y muriau'n amddiffyn hawliau masnach y bwrdeiswyr (y rhai Anglo-Normanaidd yn unig) trwy reoli mynediad i'r dref. Nid oedd bwrdeiswyr yn talu trethi na rent masnach, a chanddyn nhw yn unig oedd yr hawl i fasnachu; gwarchodwyd y buddion hyn yn ffyrnig. Daeth yr ardal o fewn y muriau'n diriogaeth broffidiol. Rhannwyd hi'n 90-100 o leiniau bwrdais; darnau o dir cul oddeutu 8m x 60m, a'r rhent blynyddol yn swllt yr un. Ar y lleiniau yma, cododd y bwrdeiswyr dai, a datblygu busnesau.

Oherwydd ei lleoliad yng nghanol tir ffrwythlon Bro Morgannwg, ffynnodd y dref, yn rhannol yn sgil llwyddiant ei marchnadoedd a'i ffeiri, traddodiad a barhaodd trwy gydol yr ugeinfed ganrif. Deuai marchnad wythnosol â defaid, da ac arogl gwrtaiith i strydoedd y dref ar fore dydd Mawrth. Codwyd mynedfa fwaog i yrru anifeiliaid drwyddo at eu dŵr yfed. Mae hwn wedi ei gau bellach, ac mae cerflun llo yno. Cynhaliwyd y marchnadoedd yn llai aml ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain, wrth i ddatblygiad y rhyngwyrdd newid strwythur dulliau masnachu.

Erbyn diwedd y drydedd ganrif ar ddeg, roedd Y Bontfaen yn ymestyn y tu hwnt i'r muriau.



Wedi hynny, lleihau wnaeth y boblogaeth – o bosib oherwydd effaith y Pla Du yn 1348–49 ar fywyd economaidd y dref – ond roedd hi'n dal i fod yn dref farchnad bwysig.

## Y Muriau

Mae'r muriau'n dyddio o gyfnod siarter 1254. Mae'n debygol fod eu harwyddocâd yn symbolaidd yn hytrach nad yn ymarferol amddiffynnol, i atgoffa'r Cymry am y goncwest Anglo-Normanidd; 'dieithriaid' oedden nhw, yn gaeth i reolaeth Seisnig.

Mae unig olion muriau'r dref sydd wedi goroesi bellach yn ffurfio ffiniau deheuol a gorllewinol Gerddi'r Hen Neuadd. O blith pedair clwyd y dref, dim ond Clwyd y De ar waelod Stryd yr Eglwys sy'n sefyll o hyd. Cafodd nifer helaeth o gerrig muriau eraill y dref eu cludo oddi yno am eu bod yn ddefnyddiol fel cerrig nadd, a daeth y lleill yn rhan o furiau gerddi a thai.

Mae gwaith archeolegol dros y blynyddoedd diwethaf wedi datgelu cryn dipyn o hanes muriau'r Bontfaen. Canfuwyd craidd canoloesol gwreiddiol y rhagfur yng nghornel darluniol Gerddi'r Hen Neuadd yn gyfan o hyd, ac mae creneliad y bylchfur sy'n arwain ato'n dyddio o'r ddeunawfed ganrif, pan fu Thomas Edmondes yn ail-wneud y gerddi. Mae'n bosibl fod y muriau gwreiddiol yn grenellog, ond mae'n fwy tebygol mai dychymyg Rhamantaidd diweddarach oedd yn gyfrifol am greu'r fath nodweddion. Gan fod y bylchfur yn edrych dros The Butts, lle y dywedir i saethyddion Cymreig a fu yn Agincourt fod yn ymarfer eu sgiliau, mae'r elfen ffantasiol hon yn ddigon addas.



Y rhagfur: tu allan



Y rhagfur: tu mewn



Mynediad y de

Ailadeiladwyd y mur deheuol yn gymharol dila, i hanner ei drwch canoloesol, ac ychwanegwyd dwy fynedfa ato, â phileri Clasurrol eu dull a pheli ar eu pen uchaf. Gellir gweld y trwch canoloesol gwreiddiol yn y cornel de-ddwyreiniol o hyd (ger yr Ardd Berlyisiau), ers pan y datgloddiwyd y mur yn ystod y tirlfesuriad archeolegol cyn cychwyn prosiect adfer Ymddiriedolaeth Siarter Y Bontfaen. Plannwyd teim ymgripiol yn yr ardal hon er mwyn sadio'r gwaith cerrig rhydd a chreu carped deniadol a phersawrus.

Adferwyd muriau'r dref gan Ymddiriedolaeth Siarter Y Bontfaen yn 2011, gan ddefnyddio deunyddiau adeiladu gwreiddiol pan oedd hynny'n bosibl, ac maen nhw bellach wedi eu cofrestru.



Sylfaen ganoloesol mur y dref

# Yr Hen Neuadd

Mae'n debygol fod safle gyfredol yr Hen Neuadd tua'r un arwynebedd ag oddeutu deg llain bwrgais. O bosibl, byddai tai masnachwyr yn y blaen a gwethdai'r tu ôl iddynt a 'siop' yn wynebu'r stryd yn achos rhai ohonynt, tra oedd y lleill yn fythynnod carreg tlawd digon tila â tho gwellt arnynt. Yn y gerddi hir yn y cefn, byddai toiledau, tomenni sbwriel, tylcod moch, stablau, gweithdai, perllannau, libartau ieir, lleiniau llyisiau (fel gardd Trawsnewidiad heddiw) neu gwningar, hyd yn oed.

Mae dogfen eiddo sy'n dyddio o 1639 yn cyfeirio at ddau blasty a dau dŷ newydd a adeiladwyd gyda'i gilydd yn wynebu'r ffordd, a'r cyfan yn perthyn i ddyn o'r enw Thomas Andrewe, a oedd yn berchen ar y tir ar ochr ddeheuol y tŷ hefyd. Erbyn 1639, roedd y tir hwn, 'commonly called the Cuningear' (cwningar), yn berllan.

Dros y ganrif nesaf daeth newid perchnogaeth, ac yn 1744 gwerthwyd y lle gan John Towgood o Fryste i Thomas Edmondess, 'gŵr bonheddig' (1715–1790), ein harwr cyntaf. Mae dogfen eiddo 1744 yn cyfeirio at gynteddau, siediau, llysoedd, ystafelloedd, tai allan a siopau – croesdoriad cymhleth o adeiladau ar y safle. Ychwanegodd Thomas Edmondess

gyfres o ystafelloedd â ffasâd clasurol a ffenestri Fenisaid, yn wynebu'r gerddi, a oedd yn cael eu gosod yn yr un cyfnod.

Mae tystiolaeth y cafodd ochr ddwyreiniol yr adeilad ei ddefnyddio fel tŷ ar wahân am y rhan fwyaf o'r ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ond yn y 1840au, symudodd y Parchedig Thomas Edmondess (ficer Y Bontfaen a Llanfleiddan am 46 mlynedd) i mewn i brif gorff yr adeilad a'i uwchraddio i arddangos ei gyfoeth sylweddol, a ddeuai gan mwyaf o'r gwythiennau glo proffidiol yr oedd yn berchen arnynt yng nghymoedd de Cymru.

Ar ôl marwolaeth Thomas Edmondess yn 1893, cyfunwyd y ddau adeilad. Ailadeiladwyd y tu blaen a wynebai'r stryd mewn arddull ffug-Duduraidd â phorth carreg, ac ychwanegwyd sawl ystafell hefyd.



Yr Hen Neuadd cyn ailadeiladu'r wyneb



Ffasâd yr Hen Neuadd: ffenestr Fenisaid



Yr Hen Neuadd gydag addurniadau Tuduraidd

## Y Teulu Edmondes

Y teulu Edmondes yw arwyr y stori hon oherwydd mai iddyn nhw mae'r diolch fod ganddon ni'r rhannau o'r muriau sy'n dal i sefyll a'r gerddi eang. Ymgartrefodd y teulu yn Y Bontfaen tua diwedd yr ail ganrif ar bymtheg. Masnach oedd y cam cyntaf yn eu llwybr at gyfoeth a statws bonheddig, yna stiwardio stadau ac ymlaen at y gyfraith nes iddyn nhw ennill eu plwyf fel tîrfeddianwyr a phobl gyhoeddus. Roedd aelodau'r teulu ymhlith y mwyaf difyr o deuluoedd y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn Y Bontfaen a Bro Morgannwg. Sefydlodd Thomas Edmondes Ffair Gŵyl Mihangel yn Y Bontfaen yn 1750 a dod yn Ddirprwy Siryf Morgannwg yn 1752. Roedd ganddo enw am wario'n ffôl, a ffordd o fyw ddigon amheus ac, o'r herwydd, roedd mewn dyled yn o aml.

Bu'r teulu Edmondes yn byw yn yr Hen Neuadd tan 1932, pan drosglwyddwyd hi i Ysgol Ramadeg Y Bontfaen a'i defnyddio ar gyfer ystafelloedd dosbarth, llyfrgell ac ystafell athrawon. Ychydig iawn o incwm oedd ar gael i gynnal a chadw'r adeilad, a dirywiodd yn raddol nes y dyfarnwyd ei fod yn beryglus yn y 1960au cynnar.



Dymchweliad Yr Hen Neuadd tua 1973


Gadawodd yr Ysgol Ramadeg yr adeilad yn 1964 a deng mlynedd yn ddiweddarach, dymchwelwyd y rhan fwyaf o gefn y tŷ, gan gynnwys llawr uchaf ei ffasâd clasurol hardd, a gadawyd e yno fel adfail dan reolaeth. Adferwyd rhai rhannau o'r adeilad at ddefnydd cymunedol, a dyma leoliad Coleg Cymunedol Y Bontfaen a rhai o swyddfeydd Cyngor Bro Morgannwg heddiw. Adeiladwyd llyfrgell Y Bontfaen a'r ganolfan iechyd – dau adeilad digon diolwg a gynlluniwyd gan fyfyrwyr yn Ysgol Pensaernïaeth Cymru – oddeutu 1974. Meithrinfa blant breifat sydd yn hen adeilad y ganolfan iechyd bellach. Mae canolfan iechyd newydd wedi cael ei chodi ger y Ganolfan Hamdden.

## Y Gerddi

Er mwyn creu ei ardd Sioraidd y prynodd Thomas Edmondes y tir am y terfyn â muriau'r dref wrth gefn y lleiniau bwrdais, lle adeiladwyd yr Hen Neuadd ac y disgrifiwyd yn berllan yn 1639. Sefydlodd gadwyn o erddi wedi eu tirlunio i greu golygfa y gellid ei mwynhau wrth edrych trwy ffenestri Fenisaidd y tŷ. Ailadeiladwyd y rhagfur yn yr un cyfnod, ac i bob pwrpas, 'mwnt' oedd e, â gwylfa/tŷ haf/ffoli ffasiynol ar ei ben, fwy na thebyg un wythochrog ei ffurf, a drws, ffenestri 'gothig' a lle tân y tu mewn iddo. O'r fan hon ceid golygfa ffafriol dros y gerddi yn ogystal â'r caeau yn y de – golygfa dros Lanfleiddan, pentref oedd yn tyfu mewn poblogrwydd fel lleoliad tai haf.

Yn anffodus, does dim dadansoddiad archeolegol wedi cael ei gynnal i'r gerddi, ond mae'n debygol fod eu cynllun yn cyd-fynd â ffasiwn y ddeunawfed ganrif hwyr: gerddi sefydlog, llwybrau cerdded graean, gwelyau blodau ffurfiol. I gyflenwi gofynion tŷ trefol, byddai gardd gegin wedi darparu llysiau a ffrwythau, fwy na thebyg ar safle'r Ardd Berlysiu heddiw.

Mae rhestr eiddo sy'n dyddio o 1762 yn cynnwys '2 flwch â choed orennau ynddynt'. Byddai'n rhaid wrth fan cysgodol dros y gaeaf i blannu'r rhain, ond maen nhw'n arddangos uchelgais cymdeithasol – roedd orenfeydd yn nodwedd hynod ffasiynol mewn tai Sioraidd, fel yr un ym Margam, sy'n dyddio o 1787. Mae prydles o 1778 yn cymell y tenant sy'n cyrraedd i ddal i 'gynnal, meithrin ac annog y coed ffrwythau a choed eraill sy'n addurnol neu'n broffidiol'. Yn ogystal, dylid gwrteithio a thrin rhannau o'r ardd a gynlluniwyd 'ar gyfer addurniadau gardd a chnydau blyneddol i gyflenwi'r Tŷ a'r Gegin'.



Pen mur, border lafant; cefn adfail cwt y farchnad wartheg 2013



Pen mur, border lafant 2013

## Yr ardd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg



Yr Hen Neuadd o'r cefn yn 1898

Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd chwaeth cynlluniau gerddi wedi newid. Mae dyddiadur yr Hybarch Frederic William Edmondes (1840–1918) yn y 1860au a'r 1870au yn cyfeirio at blanhigion tresi aur, coed planwydd a gemau tenis – adloniant ffasiynol i fenywod (roedd y cyrtiau ar safle'r llyfrgell nawr) – a lawnt croce o flaen y tŷ cyn i'r ardd isel, sef y pwll bellach, gael ei sefydlu.

Mae lluniau a dynnwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg hwyr yn dangos gwelyau blodau perffaiht, cloddiau wedi eu tocio a rhosod yn tyfu yn erbyn muriau'r tŷ. Roedd y fan lle mae'r Ardd Berlysiu nawr yn rhan o erddi'r Hen Neuadd hefyd. Fwy na thebyg mai gardd gegin oedd hi, a borderi



Y pwll gydag ynys newydd 2013 (Lucy Hailes)



Porth i'r Ardd Berlysiau

llywgar wedi eu gosod rhwng llwybrau ffurfiol a gwelyau blodau, ac i'r rhain mae ffurf gyfredol yr Ardd Berlysiau'n talu teyrnged. Yn ei dydd, byddai Mrs Edmondes wedi

cerdded ar hyd prif lwybr yr Ardd Berlysiau i gyrraedd Eglwys y Groes Sanctaidd ac eistedd yng nghôr y teulu, a'i gŵr yn ficer y plwyf.



Clychau glas a'r rhedynfa Gwanwyn 2013

## Y Gerddi yn yr ugeinfed ganrif

Pan symudodd yr Ysgol Ramadeg i'r tŷ yn 1932, roedd y gerddi'n cael eu cynnal yn dda. Yn ei ddyddiadur, disgrifiodd Richard Williams, y prifathro, 'luedd o flodau'r saffrwm, cennin Pedr yn plygu eu pennau, clychau glas ... a ffawydd coprog bendigedig a'u golau cyfnewidiol a'u cysgod yn yr haf, ac amlinelliad cain eu canghennau main yn y gaeaf'. Yn y fan lle mae'r Ardd Berlysiau heddiw, datblygodd gardd gegin yr ysgol dan ofal y prif arddwr Harold Penney. Yn ôl un athro, roedd yn 'ardd gegin furiog fendigedig, ac ynddi resi twt o fresych, moron ac afalau rhwyllwaith disgybledig. Roedd yn darparu pob math o lysiau a ffrwythau ar gyfer prydau'r disgyblion preswyl'.

Mae gardd ecoleg gynaliadwy Transition Cowbridge ar hyd y mur deheuol yn cynnal traddodiad tyfu cnydau bwyd y tu mewn i'r muriau, fel y gwnaeth y lleiniau bwrgais canoloesol, gardd gegin yr Hen Neuadd yn y ddeunawfed ganrif a, dwy ganrif wedi hynny, gardd yr Ysgol Ramadeg.

Pan gaewyd yr Ysgol Ramadeg yn 1974, mabwysiadwyd yr ardd gegin gan y Cyngor Sir fel meithrinfa goed o amrywiol fathau, a aeth yn angof dros amser. Esgeuluswyd y coed wedyn, a buan iawn y daeth yn ddiffieithwch dyrys, nes i'r Ardd Berlysiâu gael ei llunio yn 2005 gan Ymddiriedolaeth Gardd Berlysiâu'r Bontfaen ac Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru.

Ni chynhaliwyd muriau'r dref gan y Cyngor Sir, ac fe ddiplannon nhw o dan drwch o iorwg a phlanhigion dinistriol eraill, a oedd serch hynny yn gynefin delfrydol i fywyd gwyllt. Torrwyd ffawydden goprog hynafol, odidog a fu'n harddu prif ardd yr Hen Neuadd er gwaethaf gwrthwynebiad lleol sylweddol.

Er i'r Cyngor a ddilynodd wneud rhywfaint o waith cynnal a chadw o 1983 ymlaen, ni ddaeth Gerddi'r Hen Neuadd yn gaffaeliad i'r dref unwaith eto nes i Ymddiriedolaeth Siarter Y Bontfaen, mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg, adfer muriau'r dref rhwng 2008 a 2011, ac yna dod yn gyfrifol am ofal y gerddi.

Mae dau nod gan Ymddiriedolaeth Siarter Y Bontfaen: adfer gerddi'r Hen Neuadd er mwyn adfywio'u harddwch coll, ac ail-greu'r cynefin a gollwyd pan atgyweiriwyd y muriau, trwy blannu planhigion cymharus â bywyd gwyllt (rhai brodorol gan mwyaf. Am fanylion pellach, gweler y daflen ar fioamrywiaeth). Mae'n fwriad gan yr Ymddiriedolaeth hefyd gynnal y muriau a'r adeiladwaith er mwyn i'r nodweddion hanesyddol gwerthfawr yma gael eu cadw er mwyn i'r cenedlaethau a ddaw gael eu swyno ganddynt.



Dôl flodau gwyllt 2013



## Ysgrifennwyd gan yr Athro Dick Buswell a Linda Osborn

Cyfieithydd: Luned Whelan

Gyda diolch i: Hilary Thomas am ei chymorth ysgolheigaid; y teulu Edmond; Betty Alden ac Archif Hanes Lleol Y Bontfaen (yn yr Hen Neuadd) am y deunydd hanesyddol, a Rob a Linda Nottage am dynnu'r lluniau cyfoes. Cefnogwyd y llyfryn hwn gan rodd hael gan Amgylchedd Cymru ac mae'n gyflwynedig i'r Parti Gwaith sy'n llafurio'n ddi-baid i drawsnewid yr ardd dan arweiniad Richard Browning. Mae gwirfoddolwyr Ymddiriedolaeth Siarter Y Bontfaen yn hynod ddiolchgar i'r asiantaethau isod am eu cefnogaeth gyson:



Cyfrifwrdd Ewrop ar gyfer Ddiwyg  
Gwladig Ewrop yn Buddsoddi  
mewn Ardalau Gwladig  
The European Agricultural Fund for  
Rural Development: Europe Investing in  
Rural Areas

